**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/09915/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau

10 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â rhoi'r brechlyn COVID-19 i Swyddogion yr Heddlu fel blaenoriaeth yng Nghymru.

Fel gwledydd eraill y DU, mae Cymru yn blaenoriaethu brechu pobl sydd yn y perygl mwyaf o ddal y coronafeirws a datblygu salwch difrifol, yn unol ag argymhellion y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi argymell y dylid cynnig y brechlyn yn y lle cyntaf i breswylwyr cartrefi gofal, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a phobl 80 oed ac yn hŷn. Mae rhagor o wybodaeth am sut y daeth y Cyd-bwyllgor i'w gasgliadau, a manylion y grwpiau sydd yn y perygl mwyaf (gan gynnwys y rheini sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain a/neu sydd â chyflyrau iechyd isorweddol), ar gael drwy glicio ar y ddolen isod:

https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-2-december-2020

Er nad yw'r Cyd-bwyllgor wedi nodi'r rheini sy'n gweithio yn yr heddlu fel grŵp blaenoriaeth penodol ar gyfer ei gynnwys yn y cyfnod brechu cyntaf, mae'n bosibl y bydd llawer o unigolion sy'n gweithio yn y sector yn aelodau o'r grwpiau oedran neu'r grwpiau agored i niwed yn glinigol, sy'n cael eu blaenoriaethu o dan y rhaglen frechu. Felly bydd y bobl hynny'n cael cynnig y brechlyn yn seiliedig ar y perygl y maent ynddo.

Barn y Cyd-bwyllgor ar hyn o bryd yw y gallai'r ail gyfnod brechu ganolbwyntio ar wneud gwaith pellach i osgoi derbyniadau i'r ysbyty, ac mae'n bosibl y bydd brechu'r rheini, y mae mwy o berygl y gallent ddod i gysylltiad â'r feirws oherwydd eu gwaith, yn flaenoriaeth yn y cyfnod nesaf.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services